**CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Ebrill 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd B. Mellor (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, A. R. James, Ms J. McAlpine, P. Prendergast, S.H. Ratcliffe, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford, W. N. Tasker, T. Thomas, y Parch. S. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 145. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsey, y cyfarfod trwy arwain pawb mewn gweddi.

## 146. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), B. Blakeley, (yn sâl), Mrs E. M. Chard (yn sâl), Mrs P. M. Jones (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), Mrs W. M. Mullen James (yn sâl), Miss R. Siddall (ymrwymiad gwaith) a D. Simmons (ymrwymiad arall).

## 147. MINUTES

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwylltorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 17eg Chwefror 2016 - Rhifau Cofnod 112 - 125

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cyfarfod y Cyngor - 16eg Mawrth 2016 - Rhifau Cofnod 126 – 140

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cyfarfod Arbennig y Cyngor - 16eg Mawrth 2016 - Rhifau Cofnod 141 – 144

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Mawrth 2016 - Rhifau Cofnod 57 - 60

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Ebrill 2016 - Rhifau Cofnod 61 - 63

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 6ed Ebrill 2016 - Rhifau Cofnod 97-105

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

**148. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau a fynychwyd ganddo ef a'r Dirprwy Faer y mis diwethaf, a diolchodd i'r Cynghorwyr P. Prendergast, S. H. Ratcliffe a W. N. Tasker am fynychu digwyddiadau yn ei absenoldeb.

**149. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – SWYDDOGION GORFODI**

Dywedodd y Maer nad oedd swyddog Sir Ddinbych, yn anffodus, yn medru mynychu a bod y cyflwyniad wedi ei ohirio i gyfarfod yn y dyfodol.

Mynegodd yr Aelodau eu siom nad oedd y cyflwyniad i ddigwydd am y trydydd tro.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'n codi'r mater mewn cyfarfod gyda Swyddog Cyswllt Cymunedol y Cyngor Sir. Teimlai'r Aelodau y dylid hefyd anfon llythyr ffurfiol oherwydd pwysigrwydd y mater.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn codi'r mater gyda'r Swyddog Cyswllt ac yn anfon llythyr at y Cyngor Sir.*

**150. PWYLLGOR SAFONAU SIR DDINBYCH – CAIS AM ODDEFEB**

Adroddodd Clerc y Dref iddo fynychu cyfarfod yn ddiweddar o Bwyllgor Safonau Sir Ddinbych i ofyn bod yr oddefeb a roddwyd eisoes i Gynghorwyr Tref mewn perthynas â datganiadau yn ymwneud â phwyllgor y Rhyl yn ei Blodau yn cael eu hadnewyddu (cofnod rhif 128 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 1af Ebrill 2015 yn cyfeirio).

Dywedodd Clerc y Dref bod y Pwyllgor Safonau wedi cytuno â'r cais a fyddai'n gofyn i'r Aelodau ddatgan buddiant o hyd pan roedd unrhyw fater yn ymwneud â'r Rhyl yn ei Blodau i gael ei thrafod, ond hefyd i ddatgan eu bod yn dibynnu ar oddefeb arbennig i'w galluogi i aros yn y Siambr a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio.

Dywedodd Clerc y Dref hefyd y byddai'r oddefeb yn aros mewn grym tan yr etholiadau nesaf ym Mai 2017 ar gyfer yr holl Aelodau presennol, ond pe byddai cynghorwyr newydd yn cael eu hethol/cyfethol i'r Cyngor, byddai angen cyflwyno cais pellach.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad.*

**151. GUNSMOKE COMMUNICATIONS**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y raglen o ddigwyddiadau i'w trefnu gan Gunsmoke Communications ar ran y Cyngor Tref a thynnu sylw'r Aelodau i dudalen flaen papur newydd y Journal yr wythnos honno, o ganlyniad i ymdrechion a wnaed gan y cwmni.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhaglen.*

## 152. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MAWRTH 2015

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau.

| Rhif Taleb | Credydwr | Cyfanswm (£) | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| 168 | HMRC | 2,215.05 | Trethi ac YG Chwefror 2016 |
| 169 | Cynllun Pensiwn Cyngor Sir y Fflint | 3,540.58 | Cyfraniadau Pensiwn Chwefror 2016 |
| 176 | HSBC | 11.67 | Taliadau Banc 17eg Ionawr i 16eg Chwefror 2016 |
| 177 | BT | 107.10 | Gwasanaethau Rhyngrwyd Chwefror i Ebrill 2016 |
| 178 | HSBC | 200.00 | Ychwanegiad Arian Mân |
| 179 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,622.50 | Cyflogau Staff Mawrth 2016 |
| 180 | Sioned-Graham Cameron | 217.62 | Ffïoedd Cyfieithu |
| 181 | Sunray Pictures | 100.00 | Lluniau ar gyfer y Wefan |
| 040 | Sage & Co | 30.00 | Ffi Cyflogres Fisol – Mawrth 2016 |
| 182 | Cyngor Sir Ddinbych | 133.49 | Gwasanaethu Lifft, Ffordd Wellington |
| 183 | Cyngor Sir Ddinbych | 68.94 | Galwad allan i Drwsio Lifft |
| 184 | Gunsmoke Communications | 320.00 | Gwaith Rhaglen Ddigwyddiadau – Chwefror 2016 |
| 185 | WPS insurance | 36.26 | Premiwm Uwch – Ffyddlondeb Gweithwyr |
| 186 | BT | 115.68 | Taliadau Ffôn a Rhentu Llinell |
| 187 | Delwedd | 2,998.20 | Costau Gwefan – Sefydlu, Dylunio a Lletya |
| 188 | Cyngor Sir Ddinbych | 2,865.88 | Cost Is-etholiad Ward Bryn TIrion 17/03/16 |
| 189 | Cyngor Sir y Fflint | 42,000.00 | Tâl Ychwanegol Diffyg Cynllun Pensiwn |
| 190 | Cyngor Sir Ddinbych | 121,073.88 | Llochesi'r Parêd, Parc Drifft, Resurgam a Llwybr Beicio |
| 191 | BT | 304.93 | Galwadau a Chostau Rhentu |
| 192 | BT | 44.24 | Galwadau a Chostau Rhentu |
| | | | |
| | **Cyfanswm Taliadau** | **183,006.02** | |
| | | | |
| | Cyngor Sir Ddinbych | 14.00 | 2 x docyn Gala'r Maer |
| | HSBC | 44.30 | Llog ar Adneuon Marchnad Arian |
| | HSBC | 33.77 | Llog ar Falansau Ionawr i Fawrth 2016 |
| | Santander | 1.70 | Llog ar Gyfrif Buddsoddi Mawrth 2016 |
| | Cynllun Adneuo Sector Cyhoeddus | 34.12 | Difidend Ionawr i Fawrth 2016 |
| | | | |
| | **Cyfanswm Derbyniadau** | **127.89** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**153. EITEMAU ER GWYBODAETH: GOLEUADAU BACH YN Y COED GER NEUADD Y DREF**

Cyfeiriodd Aelod at y goleuadau bach a osodwyd mewn coed yng nhefn Neuadd y Dref yn ddiweddar, y talwyd amdanynt o arian dros ben a reolir gan gyn-grŵp Fforwm Canol y Dref.

Dywedodd yr Aelodu, oherwydd amryfusedd, nad oedd darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer y TAW a oedd yn daladwy, ac yn anffodus nid oedd gan y mudiad ddigon o arian i dalu'r gost.

Gofynnodd yr Aelodau bod y Cyngor Tref yn ystyried talu'r gost, o ychydig dros £200.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Tref yn talu'r TAW.*

**154. GRŴP CYFEIRIO LLEOL**

Dywedodd Clerc y Dref, ymhellach i'r cyflwyniad a roddwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2016, bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cysylltu ag ef i ddweud bod y Grŵp Cyfeirio Lleol nawr yn y broses o gael ei sefydlu, ac y byddai'n agored i holl Aelodau etholedig y Rhyl ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref y Rhyl ynghyd â'r AS a'r AC lleol.

Roedd y Cyngor Sir nawr yn gofyn i'r Cyngor Tref nodi diwrnod mwyaf addas yr wythnos ac amser mwyaf addas y dydd ar gyfer cynnal y cyfarfodydd.

Mynegodd nifer o Aelodau bryderon ynglŷn â gweithrediad y grŵp a thrafodwyd a ddylai'r Cyngor Tref gynnig lletya'r cyfarfodydd. Teimlai'r Aelodau hefyd ei bod yn bwysig i'r cyfarfodydd gael cylch gorchwyl clir ar gael i'r Aelodau ei hystyried cyn y cyfarfod cyntaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn hysbysu'r Cyngor Sir mai'r diwrnod mwyaf addas fyddai dydd Llun am 5.30pm, a gofyn bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei anfon i'r Aelodau a'i drafod yn y cyfarfod cyntaf.*

**155. HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

156. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**157. ADNEWYDDU YSWIRIANT**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am awdurdod i gael estyniad blwyddyn i'r trefniadau yswiriant presennol am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) cadarnhau eithriad o Reolau Sefydlog Contract dan Adran 9.1 (d).*

*(ii) cymeradwyo estyniad o'r trefniadau yswiriant gydag Aviva am flwyddyn am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.*

**158. TIR AR FFORDD CEFNDY/ FFORDDLAS Y RHYL**

Adroddodd Clerc y Dref bod Cyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cysylltu ynglŷn â'r darn bach o dir ar Ffordd Cefndy / Fforddlas, ym meddiant y Cyngor Tref.

***PENDERFYNIAD***:

*(i) mewn perthynas â Chyngor Sir Ddinbych:*

- *cyfarwyddo Clerc y Dref i holi a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn prynu'r tir.*
- *eu bod yn cael caniatâd i fynd ati i blannu coed wrth y gyffordd i ddelio â materion diogelwch ffordd yn amodol ar y ffaith nad oedd cost i'r Cyngor Tref.*
- *eu bod yn ystyried ymestyn y parth 20mya o Ysgol Plas Cefndy i ddelio â'r broblem o draffig yn teithio'n gyflym yn yr ardal hon.*

*(ii) mewn perthynas â Chyfoeth Naturiol Cymru, gwrthod y cais a gofyn iddynt gael mynediad o dir cyffiniol.*

159. **EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Mewn perthynas â chofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

160. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:…………….…………..

Dyddiad: …………………….…………..